



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad ar Ddiwygiadau Arfaethedig ar gyfer Rheoli Cregyn Moch – Crynodeb o'r Ymatebion

Awst 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

1. Y Cefndir.....	2
2. Cyfnod a Dosbarthiad yr Ymgynghoriad	3
3. Ymatebion.....	3
4. Crynodeb.....	4
5. Y Camau Nesaf.....	5

1. Y Cefndir

Yn 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar fesurau newydd ar gyfer rheoli cregyn moch, er mwyn gwarchod stociau ac i sicrhau cynaliadwyedd pysgodfa cregyn moch Cymru: <https://llyw.cymru/mesurau-rheoli-cregyn-moch-2020-estyniad>

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- **Cynllun awdurdodi** ar gyfer pob cwch o'r DU sy'n dal cregyn moch â chewyll ym Mharth Cymru
- **Terfyn dal blynyddol** ar gyfanswm y cregyn modd y gellir eu cymryd o Barth Cymru
- **Cap glanio misol hyblyg** ar gyfer cychod awdurdodedig.

Cafwyd 61 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt o blaid y mesurau arfaethedig. Mae dadansoddiad o'r ymatebion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/mesurau-rheoli-cregyn-moch-2020-estyniad>

Ar 29 Mehefin 2021, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at randdeiliaid i'w **hysbysu** am ddatblygiadau pellach i'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, yn benodol:

1. **Bydd tymor cyntaf pysgota trwyddedig yn y bysgodfa cregyn moch yn dechrau yn 2022.**

Roedd ymgynghoriad 2020 yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i roi'r drefn newydd ar gyfer rheoli cregyn moch ar waith yn 2021. Mae effaith Brexit a COVID-19 wedi golygu ein bod bellach yn gweithio tuag at agor tymor cyntaf pysgota trwyddedig yn y bysgodfa cregyn moch ar 1 Mawrth 2022.

2. **Bydd angen manylion meistr y cwch fel rhan o'r cais am drwydded**

Roedd Blwch 1 yr ymgynghoriad yn nodi y bydd angen manylion perchennog y cwch ar y ffurflen gais am awdurdodiad i bysgota am gregyn moch. Yn ogystal, bydd angen manylion meistr y cwch hefyd fel rhan o'r cais os nad ef yw'r perchennog hefyd.

3. **Bydd adroddiad blynyddol cyntaf yr arolwg stoc ar gael yn hydref 2022** nid gwanwyn 2021 fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad.

4. **Bydd adroddiadau cryno blynyddol ar stoc ar gael erbyn dechrau mis Tachwedd bob blwyddyn.** Yn dilyn cyngor pellach gan wyddonwyr pysgodfeydd, bydd yr adroddiad cryno blynyddol ar stoc yn cael ei ddisbarthu ar ddechrau mis Tachwedd bob blwyddyn yn hytrach na mis Gorffennaf fel y nodwyd ym Mluch 2 yr ymgynghoriad. Bydd yr amser ychwanegol hwn yn caniatáu cynnal asesiad mwy cynhwysfawr. Bydd

swyddogion yn ymgynghori â darpar ddeiliaid awdurdodiad ar gynnwys yr adroddiad cryno yn ystod mis Tachwedd, cyn pennu a chyhoeddi'r terfyn dal blynyddol newydd.

- 5. Bydd System Monitro Cychod (VMS) yn ofynnol o 2023 ymlaen.** Ni fydd angen VMS weithredol yn ystod tymor cyntaf pysgota trwyddedig yn y bysgodfa, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, o 2023 ymlaen bydd yn ofynnol i bob cwch sy'n pysgota am gregyn moch ym mharth Cymru fod â VMS weithredol sy'n anfon data bob deg munud.
- 6. Bydd angen trwydded ddilys ar bob cwch (o'r DU neu o dramor) sy'n pysgota am gregyn moch ym mharth Cymru.** Nawr mae'r fframwaith rheoleiddio a deddfwriaethol wedi cael ei bennu yn dilyn Brexit, gall Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd angen trwydded ar bob cwch sy'n pysgota am gregyn moch ym mharth Cymru.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru hefyd am **sylwadau** ar y canlynol:

- 7. Bydd y terfyn dal blynyddol yn cael ei bennu gan ddefnyddio data o asesiadau hanesyddol a chyfredol o stoc.**
Nododd yr ymgynghoriad y byddai'r terfyn dal blynyddol ar gyfer y bysgodfa cregyn moch yn ystod y flwyddyn gyntaf yn cael ei osod ar 5298 tonnall, yn seiliedig ar ddata dal hanesyddol, ac ar ôl hynny y byddai'r terfyn dal blynyddol yn seiliedig ar asesiadau o stociau cregyn moch. Yn dilyn cyngor pellach gan wyddonwyr pysgodfeydd, defnyddir glaniadau hanesyddol a data o asesiadau cyfredol o stoc i bennu'r terfyn dal blynyddol, ac mae'n bosibl y bydd yn parhau i fod yn 5298 tonnall y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf.

2. Cyfnod a Dosbarthiad yr Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd y llythyr am y diwygiadau arfaethedig

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-06/llythyr-ymgynghori-cregyn%20moch.pdf> ar 29 Mehefin.

Gwahoddwyd sylwadau ar Bwynt 7 uchod yn unig. Daeth y cyfnod ar gyfer ymgynghori ar bwynt 7 i ben ar 29 Gorffennaf.

Cafodd y llythyr ei anfon at bob pysgotwr cofrestredig, ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, a'i ddosbarthu ar Twitter, a chysylltwyd â rhanddeiliaid yn uniongyrchol. Rhoddwyd cyfle hefyd i randdeiliaid siarad â swyddogion yn uniongyrchol.

Roedd yr ymatebwyr yn gallu ymateb drwy e-bost neu'n ysgrifenedig.

3. Ymatebion

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i fynegi eu barn ac ymateb i'r llythyr am y diwygiadau arfaethedig, a bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried cyn cyflwyno unrhyw fesurau newydd.

Derbyniwyd pedwar ymateb ysgrifenedig o ganlyniad i randdeiliaid yn derbyn y llythyr. Fodd bynnag, ni roddodd ymatebwyr sylwadau ar y mater penodol yr oedd angen sylwadau yn ei gylch.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Pryderon y byddai angen cofnod hanesyddol fel rhan o wirio cymhwysedd ar gyfer trwydded.
- Gofynnodd un ymatebwr am fanylion awdurdodaeth Parth Cymru. (dros y ffôn)
- Awgrymodd un ymatebwr y dylai nifer y trwyddedau sydd ar gael ar gyfer cychod sydd â chofnod hanesyddol gael ei gapio.
- Cododd un ymatebwr bryder ynghylch a oedd datganiadau dalfeydd pysgotwyr yn adlewyrchu eu dalfeydd yn gywir mewn perthynas ag amodau'r farchnad.
- Roedd un sylw yn ymwneud â phreswyllo
- Roedd un sylw'n ymwneud â'r amser mae'n ei gymryd i gyflwyno mesurau ar gyfer rheoli cregyn moch.

Cofnod Hanesyddol

“Ydych yn bwriadu caniatáu i gychod mwy sydd â chofnod hanesyddol bysgota”

“Yn ôl pob golwg, yn ôl eich llythyr ni fyddwn ni'n cael trwydded i bysgota am gregyn moch gan nad oes cofnod hanesyddol gennym”

Capio nifer y trwyddedau

“Os ydym yn cyflwyno terfyn dal blynyddol, yn sicr dylai nifer y trwyddedau sy'n cael eu dyrannu i gychod a ddaliodd y maint hwnnw o gregyn moch gael ei gapio ”

Datganiadau Dalfeydd

“Gyda chyfyngiadau ar lanio sy'n cael eu gorfodi gan brynwyr oherwydd diffyg gwerthiannau, o ganlyniad i COVID, sut y gellir cynnal dadansoddiadau cywir o stociau'n seiliedig ar ddatganiadau pysgotwyr”

Parth Cymru

Gofynnwyd am eglurder ynghylch maint Parth Cymru.

Preswyllo

“Dylai criwiau fod yn drigolion yn y DU”

Amseru

“Dylai mesurau fod wedi cael eu cyflwyno ddwy flynedd yn ôl”

4. Crynodeb

Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar gynnig penodol yn ymwneud â'r Terfyn Dal Blynyddol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Roedd y llythyr am y diwygiadau arfaethedig hefyd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r canlynol

- Bydd tymor cyntaf pysgota trwyddedig yn y bysgodfa cregyn moch yn dechrau yn 2022
- Bydd angen manylion meistr y cwch fel rhan o'r cais am drwydded
- Bydd adroddiad blynyddol cyntaf yr arolwg stoc ar gael yn ystod hydref 2022
- Bydd adroddiadau cryno blynyddol ar stoc ar gael erbyn dechrau mis Tachwedd bob blwyddyn
- Bydd System Monitro Cychod (VMS) yn ofynnol o 2023 ymlaen

- Bydd angen trwydded ddilys ar bob cwch (o'r DU neu o dramor) sy'n pysgota am gregyn moch ym mharth Cymru

5. Y Camau Nesaf

Bydd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru nawr yn ystyried yr holl ymatebion a sylwadau rydym wedi'u derbyn. Bydd swyddogion yn awr yn paratoi briff ar gyfer y Gweinidog ar y canlyniadau ac yn ceisio paratoi deddfwriaeth newydd a phroses reoli newydd i reoli pysgodfa cregyn moch Cymru yn gynaliadwy.

Mae swyddogion yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid a byddant yn gweithio i hwyluso'r broses o gyflwyno'r cynllun trwyddedu newydd.